Papur Briffio 7

Addysg

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007

"Rwyt ti dan straen, rwyt ti'n colli dy limpin, rwyt ti'n cael dy yrru o'r ysgol. Dwyt ti ddim yn cael unrhyw addysg felly fedri di ddim cael gwaith iawn ac rwyt ti wedi cael dy ddal mewn tlodi."

Gwrandewch! Plant a phobl ifanc yn siarad am dlodi
Achub y Plant

Save the Children
Achub y Plant

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant

NCH CYMRU

NSPCC
Dim mwy o greulondeb i blant. DIM.
Cruelty to children must stop. FULL STOP.

Barnardo's Cymru
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Addysg

Fel y mae Erthygl 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn pwysleisio, pwrpas addysg yw datblygu plant yn llawn i'w paratoi i ymgymryd â chyfrifoldeb dros eu bywydau eu hunain.

Mae addysg yn allweddol i gyflawni saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n cael effaith sylweddol ar hunan-barch, lles a datblygiad emosiynol plant, yn ogystal â'u cyrhaeddiad a'u rhagolygon am gyflogaeth.

Beth sydd wedi'i gyflawni ers 2003?

Addysg yw un o'r meysydd lle y cafwyd gwahaniaethau pendant o'i gymharu â'r cyfeiriad polisi yn Lloegr. Yn hytrach nag aildrefnu strwythurau, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi canolbwyntio ar wella ansawdd yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol.

Y mesurau allweddol yw: Dechrau'n Deg ar gyfer rhai dwy flwydd oed yn yr ardaloedd tlotaf; cwricwlwm newydd yn y cyfnod sylfaen; llwybrau dysgu i rai 14-19 blwydd oed; Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru; lwfansau cynhaliaeth addysg; brecwast am ddim mewn ysgolion a chymorth i brynu gwisg ysgol; rhywfaint o arian sefydlu ar gyfer ysgolion bro; cynlluniau i wella'r profiad o drosglwyddo i'r ysgol uwchradd; ac yn fwyaf diweddar, "Rhagori", a fydd yn ariannu rhai cynlluniau i wella cyrhaeddiad. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i gwneud yn orfodol hefyd i ysgolion ddatblygu cynghorau ysgolion.

Pan gyhoeddwyd adroddiad Comisiynydd Plant Cymru ar Ymchwiliad Clywch ym Mehefin 2004, amlygwyd pryderon sylweddol ynghylch y dull o ddiogelu disgyblion mewn addysg ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd camau cadarnhaol ar y rhan fwyaf o'r argymhellion. Un o'r argymhellion hynny oedd y dylid datblygu strategaeth gynghori mewn ysgolion i Gymru.

Yn ogystal â hynny, cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer ymgynghori ar Gynnwys a Chynorthwyo Disgyblion a Gweithdrefnau Cwynion mewn Ysgolion a bydd ymgynghoriad ar Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, sy'n ymwneud â'r ddyletswydd sydd ar ysgolion ac AALlau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

Croesewir y camau i ddatblygu Ysgolion Bro yng Nghymru. Rhaid rhoi cymorth i ysgolion i ddatblygu partneriaethau gydag asiantaethau eraill a chyda rhieni, i sicrhau bod cynlluniau newydd yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn ogystal â'r gymuned ehangach o oedolion.

Beth yw ein pryderon presennol?

- Mae bwlio'n dal i fod yn un o'r tri phrif fater sy'n peri pryder i blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu rhwydwaith gwrth-fwlio ac wedi adolygu polisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion. Fodd bynnag, un mater allweddol yw i ba raddau y mae polisïau gwrth-fwlio'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys bwlio ar sail hil, tueddfryd rhywiol ac anabledd. Plant a phobl ifanc yw'r rhai sydd yn y lle gorau i farnu ynghylch gweithrediad polisïau ac mae ganddynt bryderon mawr o hyd.

- Roedd cyrhaeddiad yng Nghymru wedi codi'n gyson am rai blynyddoedd ond mae wedi aros yn ei unfan bellach ac mae'n dal i fod yn is na'r lefelau yn Lloegr. Mae nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb gael pum gradd A-C mewn TGAU yn uchel iawn ac mae hynny'n cael effaith sylweddol ar allu pobl ifanc i weithio eu ffordd allan o dlodi. Nid yw'r bwlch rhwng yr ysgolion sy'n perfformio waethaf a'r rhai sy'n perfformio orau wedi mynd yn llai. Yn ogystal â hynny, mae canlyniadau addysgol y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yn dal i fod yn destun pryder mawr. Mae cynllun Rhagori yn gam i'r cyfeiriad iawn. Mae cyrhaeddiad plant anabl yn is nag y dylai fod mewn llawer achos. Nid oes dyletswydd statudol i sicrhau eu bod yn "dechrau'n deg".

- Mae iechyd a lles emosiynol llawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru'n wael iawn, am amryw o resymau. Gall hynny ei amlygu ei hun drwy ymddygiad anodd ac aflonyddu neu drwy encilio a hunan-niweidio. Mae ysgolion mewn lle da i wneud gwaith ataliol gyda phlant a phobl ifanc, drwy feithrin eu "deallusrwydd emosiynol", drwy ddysgu sgiliau cymdeithasol a datrys problemau ac, os oes pryderon yn eu cylch, drwy gydnabod bod angen cael cymorth proffesiynol gan asiantaeth arall.
- Yn groes i'r farn gyffredin, nid yw'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn gwybod eu hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. Mae ysgolion mewn lle da i addysgu plant am eu hawliau a rhoi gwybodaeth iddynt ynghylch i ble y dylent fynd os oes ganddynt bryderon.

Argymhellion

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

- Sicrhau bod arolygiadau o ysgolion yn cynnwys adborth gan blant a rhieni am effeithiolrwydd polisïau a mesurau gwrth-fwlio.
- Sicrhau bod ysgolion yn rhannu arferion gwrth-fwlio sy'n effeithiol, fel y dangoswyd mewn adroddiad diweddar gan Estyn.
- Sicrhau bod ysgolion ac AALlau yn dilyn y pwyntiau gweithredu o brosiectau "Cau'r Bwlch" Llywodraeth Cynulliad Cymru/CLlLC ar gyrhaeddiad.
- Rheoli ansawdd hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith i rai 14-19 blwydd oed.
- Datblygu canllawiau ar gyfer ysgolion a lleoliadau gofal i annog rhieni i gymryd rhan yn addysg eu plant, yn enwedig rhieni difreintiedig.
- Darparu monitro mwy manwl ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal.
- Annog ysgolion i weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal a dal eu gafael ynddynt yn ystod adegau anodd.
- Defnyddio pwerau newydd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i roi hawl statudol i blant anabl/sydd ag anabledd dysgu i dderbyn gwasanaethau datblygu plant o adeg eu geni (neu o adeg eu diagnosis).
- Sicrhau bod athrawon yn cael eu hyfforddi i gyflwyno, neu i drefnu i eraill gyflwyno: llythrennedd emosiynol; dulliau o ddatrys problemau; llythrennedd ariannol, paratoad ar gyfer magu plant; cydberthynas briodol; cydraddoldeb ac amrywiaeth, a hawliau plant.
- Sicrhau bod staff ysgolion wedi'u hyfforddi i adnabod problemau, fel y posibilrwydd o gam-drin plant a phroblemau iechyd meddwl, ac i atgyfeirio yn eu cylch.
- Sicrhau bod athrawon wedi'u hyfforddi mewn hawliau plant a'u bod yn rhoi gwybod i blant am CCUHP.
- Rhoi canllawiau i AALlau ar addysg plant Sipsiwn-Teithwyr.
- Sicrhau bod ymarferwyr addysg a gwaith cymdeithasol a gofalwyr yn cael hyfforddiant a chanllawiau i'w galluogi i hyrwyddo canlyniadau addysgol da ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Cyflwyno gofyniad i weithiwr proffesiynol allweddol neu ofalwr fynd i nosweithiau rhieni a digwyddiadau eraill yn yr ysgol ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal. Dylid ystyried barn a dymuniadau'r plentyn sy'n derbyn gofal wrth benderfynu pwy ddylai fynd i ddigwyddiadau o'r fath.

MANYLION CYSWLLT

BARNARDO'S CYMRU
ANDY JAMES, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, POLISI
Ffôn: 01792 463357
E-bost: andy.james@barnardos.org.uk

NCH CYMRU
JAYNE ISAAC, SWYDDOG POLISI CYHOEDDUS
Ffôn: 029 20 222127
E-bost: jayne.isaac@nch.org.uk

NSPCC
SIMON JONES, CYNGHORYDD POLISI CYMRU
Ffôn: 029 20 267000
E-bost: simonjones@nspcc.org.uk

ACHUB Y PLANT
ANNE CROWLEY, UWCH GYNGHORYDD POLISI
Ffôn: 029 20 396838
E-bost: a.crowley@savethechildren.org.uk

TROS GYNNAL
JACKIE MURPHY, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL
Ffôn: 029 20 396974
E-bost: jackie.murphy@trosgynnal.org.uk

Cefnogwyd y papur briffio hwn gan Plant yng Nghymru